



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Galluogrwydd, Addasrwydd a Hinsawdd

**Effaith Newid yn yr Hinsawdd
ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol
(ALC) yng Nghymru**

Mawrth 2020
Cod Rhaglen: CSCP05





Rhaglen Galluogrwydd, Addasrwydd a Hinsawdd

Effaith Newid yn yr Hinsawdd ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yng Nghymru

Paratowyd gan: Caroline Keay a Jacqueline Hannam

Dyddiad: *Mawrth 2020*



Dylid dyfynnu'r adroddiad hwn fel a ganlyn: Keay C. A. a Hannam J.A. 2020. Effaith Newid yn yr Hinsawdd ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yng Nghymru. Rhaglen Gallu, Addasrwydd a Hinsawdd, Adroddiad Llywodraeth Cymru 95tt

Cynnwys

1	Crynodeb o'r canfyddiadau	10
2	Hinsawdd sy'n newid – ystyriaethau adnoddau naturiol	18
3	Data hinsawdd a ddefnyddir yn y system Dosbarthiad Tir Amaethyddol	19
4	Ansawdd tir amaethyddol	22
4.1	Senarios allyriadau isel.....	26
4.2	Senarios allyriadau canolig	30
4.3	Senarios allyriadau uchel	34
5	Rhyngweithiadau pridd a hinsoddol (sychder a gwlybanaeth pridd)	38
5.1	Meini prawf hinsawdd y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC).....	38
5.1.1	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl hinsawdd a senario allyriadau isel.....	43
5.1.2	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl hinsawdd a senario allyriadau canolig.....	46
5.1.3	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl hinsawdd a senarios allyriadau uchel.....	49
5.2	Effaith newid hinsawdd ar feini prawf sychder	52
5.2.1	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl sychder a senarios allyriadau isel	56
5.2.2	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl sychder a senarios allyriadau canolig.....	59
5.2.3	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl sychder a senarios allyriadau uchel.....	62
5.3	Effaith newid hinsawdd ar feini prawf gwlybanaeth.....	65
5.3.1	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl gwlybanaeth a senarios allyriadau isel	69
5.3.2	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl Gwlybanaeth a senarios allyriadau canolig	72
5.3.3	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl gwlybanaeth a senarios allyriadau uchel.....	75
6	Astudiaeth achos Sir Benfro	78
7	Paramedrau hinsawdd cyffredinol.....	88
8	Cyfeiriadau.....	96

Ffigurau

<i>Ffigur 1 Gradd ALC Ragfynegol o dan senarios UKCP18. NA ardaloedd anamaethyddol, U ardaloedd trefol.....</i>	<i>14</i>
<i>Ffigur 2 Newidiadau yn y radd ALC o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol.</i>	<i>15</i>
<i>Ffigur 3 Prif gyfyngiadau ar ALC (wedi'i flaenoriaethu yn ôl Hinsawdd, Sychder, Gwlybaniaeth, Ffactorau eraill) ar gyfer llinell sylfaen y Map ALC Rhagfynegol (fersiwn 2). Mae eraill yn cynnwys yr holl feini prawf ALC eraill nad ydynt yn rhai hinsoddol megis dyfnder pridd, cynnwys cerrig yr uwchbridd a graddiant.....</i>	<i>16</i>
<i>Ffigur 4 Prif gyfyngiadau ar ALC (wedi'i flaenoriaethu yn ôl Hinsawdd, Sychder, Gwlybaniaeth, Ffactorau eraill) ar gyfer y Map ALC Rhagfynegol yn 2080 o dan y senario allyriadau canolig. Mae eraill yn cynnwys yr holl feini prawf ALC eraill nad ydynt yn rhai hinsoddol megis dyfnder pridd, cynnwys cerrig yr uwchbridd a graddiant.....</i>	<i>17</i>
<i>Ffigur 5 Llinell sylfaen Gradd ALC Ragfynegol (fersiwn 2.0).</i>	<i>23</i>
<i>Ffigur 6 Gradd ALC Ragfynegol o dan senarios UKCP18</i>	<i>24</i>
<i>Ffigur 7 Newidiadau yn y radd ALC o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae gradd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol.</i>	<i>25</i>
<i>Ffigur 8 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae trwch rhuban yn cynrychioli nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>27</i>
<i>Ffigur 9 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>28</i>
<i>Ffigur 10 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel.....</i>	<i>29</i>
<i>Ffigur 11 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>31</i>
<i>Ffigur 12 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>32</i>
<i>Ffigur 13 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau Canolig</i>	<i>33</i>
<i>Ffigur 14 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>35</i>
<i>Ffigur 15 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>36</i>
<i>Ffigur 16 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>37</i>
<i>Ffigur 17 Llinell sylfaen ALC fersiwn 2.0 - Gradd yn ôl hinsawdd yn unig.....</i>	<i>40</i>
<i>Ffigur 18 Gradd ALC yn ôl hinsawdd o dan senarios UKCP18.....</i>	<i>41</i>
<i>Ffigur 19 Newidiadau yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae gradd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol</i>	<i>42</i>
<i>Ffigur 20 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>43</i>
<i>Ffigur 21 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>44</i>
<i>Ffigur 22 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>45</i>
<i>Ffigur 23 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>46</i>
<i>Ffigur24 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>47</i>

<i>Ffigur25 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>48</i>
<i>Ffigur 26 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>49</i>
<i>Ffigur27 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>50</i>
<i>Ffigur 28 Newid yn y radd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>51</i>
<i>Ffigur 29 Llinell sylfaen ALC f2 - Gradd yn ôl sychder.....</i>	<i>53</i>
<i>Ffigur 30 Gradd ALC yn ôl Sychder o dan senarios UKCP18.....</i>	<i>54</i>
<i>Ffigur 31 Newidiadau yn y radd ALC yn ôl Sychder o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae gradd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol</i>	<i>55</i>
<i>Ffigur 32 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel.....</i>	<i>56</i>
<i>Ffigur 33 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel.....</i>	<i>57</i>
<i>Ffigur 34 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel.....</i>	<i>58</i>
<i>Ffigur 35 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>59</i>
<i>Ffigur 36 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>60</i>
<i>Ffigur 37 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>61</i>
<i>Ffigur 38 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>62</i>
<i>Ffigur 39 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>63</i>
<i>Ffigur 40 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>64</i>
<i>Ffigur 41 Gradd ALC f2 yn ôl Gwlybanaeth Pridd yn unig.....</i>	<i>66</i>
<i>Ffigur 42 Gradd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd o dan senarios UKCP18</i>	<i>67</i>
<i>Ffigur 43 Newidiadau yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae gradd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol.....</i>	<i>68</i>
<i>Ffigur 44 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>69</i>
<i>Ffigur 45 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>70</i>
<i>Ffigur 46 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel</i>	<i>71</i>
<i>Ffigur 47 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>72</i>
<i>Ffigur48 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>73</i>
<i>Ffigur49 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau canolig</i>	<i>74</i>
<i>Ffigur 50 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>75</i>
<i>Ffigur 51 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>76</i>
<i>Ffigur 52 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybanaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel</i>	<i>77</i>
<i>Ffigur 53 Gradd ALC yn ôl hinsawdd ar gyfer Sir Benfro o linell sylfaen y map ALC Rhagfynegol (fersiwn 2) (tudalen flaenorol). ALC Rhagfynegol ar gyfer Senarios UKCP18 yn Sir Benfro (y dudalen hon).....</i>	<i>80</i>
<i>Ffigur 54 Newidiadau yn y radd ALC Ragfynegol o'r map ALC Rhagfynegol fersiwn 2.</i>	<i>81</i>
<i>Ffigur 55 Gradd ALC yn ôl hinsawdd ar gyfer Sir Benfro o linell sylfaen y map ALC Rhagfynegol (fersiwn 2).....</i>	<i>82</i>

<i>Ffigur 56 Gradd ALC yn ôl hinsawdd ar gyfer Senarios UKCP18 yn Sir Benfro</i>	<i>83</i>
<i>Ffigur 57 Gradd ALC yn ôl gwlybanaeth ar gyfer Sir Benfro o linell sylfaen y map ALC Rhagfynegol (fersiwn 2)</i>	<i>84</i>
<i>Ffigur 58 Gradd ALC yn ôl gwlybanaeth pridd ar gyfer Senarios UKCP18 yn Sir Benfro</i>	<i>85</i>
<i>Ffigur 59 Gradd ALC yn ôl sychder ar gyfer Sir Benfro o linell sylfaen y map ALC Rhagfynegol (fersiwn 2).....</i>	<i>86</i>
<i>Ffigur 60 Gradd ALC yn ôl sychder ar gyfer Senarios UKCP18 yn Sir Benfro</i>	<i>87</i>
<i>Ffigur 61 Cyfartaledd Glaw Blyneddol – AAR - o dan senarios UKCP18</i>	<i>89</i>
<i>Ffigur 62 Cyfartaledd Glaw yr Haf rhwng Ebrill a Medi - ASR - o dan senarios UKCP18</i>	<i>90</i>
<i>Ffigur 63 Tymheredd cronedig uwchlaw 0°C (Ionawr i Mehefin)-ATO - o dan senarios UKCP18</i>	<i>91</i>
<i>Ffigur 64 Tymheredd Cronedig yr Haf uwchlaw 0°C (Mehefin i Medi) – ATS – o dan senarios UKCP18.....</i>	<i>92</i>
<i>Ffigur 65 Hyd capasiti cae (dyddiau)- FCD - o dan senarios UKCP18</i>	<i>93</i>
<i>Ffigur 66 Diffyg lleithder wedi'i addasu ar gyfer cnwd, tatws (mm) -MDMPOT - o dan senarios UKCP18.....</i>	<i>94</i>
<i>Ffigur 67 Diffyg lleithder wedi'i addasu ar gyfer cnwd, gwenith (mm) -MDMPOT - o dan senarios UKCP18.....</i>	<i>95</i>

Tablau

<i>Tabl 1 Cyfran yr arwynebedd tir sydd o dan raddau ALC gwahanol o'r llinell sylfaen i senarios isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080 (data UKCP18)</i>	<i>12</i>
<i>Tabl 2 Canran yr arwynebedd tir sydd wedi'i ddosbarthu fel tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas o'r llinell sylfaen i'r senarios isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080 (data UKCP18).....</i>	<i>12</i>
<i>Tabl 3 Disgrifiad o'r Graddau ALC (ffynhonnell MAFF 1988).....</i>	<i>13</i>
<i>Tabl 4 Crynodeb o Baramedrau Hinsawdd yr ALC</i>	<i>21</i>
<i>Tabl 5 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m yng Nghymru ar gyfer pob gradd ALC ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a 2020, 2050 a 2080 o dan senario allyriadau isel. Heb gynnwys ardaloedd anamaethyddol a threfol. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n dangos cyfran yr arwynebedd llinell sylfaen.</i>	<i>26</i>
<i>Tabl 6 Cyfran yr arwynebedd yng Nghymru a ddosberthir fel tir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV; graddau 1, 2 a 3A ALC) a thir nad yw'n BMV (Graddau 3b, 4 a 5) ar gyfer y llinell sylfaen a'r senarios allyriadau isel yn 2020, 2050 a 2080. Heb gynnwys ardaloedd anamaethyddol a threfol.....</i>	<i>26</i>
<i>Tabl 7 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>27</i>
<i>Tabl 8 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>28</i>
<i>Tabl 9 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>29</i>
<i>Tabl 10 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m ar gyfer pob gradd ALC ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a senarios allyriadau canolig 2020, 2050 a 2080 o dan senario allyriadau isel. . Cyfran y sgwariau gwreiddiol mewn cromfachau.....</i>	<i>30</i>
<i>Tabl 11 Cyfran yr arwynebedd yng Nghymru a ddosberthir fel tir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV; graddau 1, 2 a 3a ALC) a thir nad yw'n BMV (Graddau 3b, 4 a 5) ar gyfer y llinell sylfaen a'r senarios allyriadau canolig yn 2020, 2050 a 2080. Heb gynnwys ardaloedd anamaethyddol a threfol.....</i>	<i>30</i>
<i>Tabl 12 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau Canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>31</i>
<i>Tabl 13 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>32</i>
<i>Tabl 14 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau Canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>33</i>
<i>Tabl 15 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m ar gyfer pob gradd ALC ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a senarios allyriadau uchel 2020, 2050 a 2080. Cyfran y sgwariau gwreiddiol mewn cromfachau.</i>	<i>34</i>
<i>Tabl 16 Cyfran yr arwynebedd yng Nghymru a ddosberthir fel tir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV; graddau 1, 2 a 3a ALC) a thir nad yw'n BMV (Graddau 3b, 4 a 5) ar gyfer y llinell sylfaen a'r senarios allyriadau uchel yn 2020, 2050 a 2080. Heb gynnwys ardaloedd anamaethyddol a threfol.....</i>	<i>34</i>
<i>Tabl 17 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>35</i>
<i>Tabl 18 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>36</i>
<i>Tabl 19 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau Uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.....</i>	<i>37</i>

Tabl 20 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m ar gyfer pob gradd ALC yn ôl meini prawf hinsawdd ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Cyfran y sgwariau llinell sylfaen mewn cromfachau.	39
Tabl 21 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	43
Tabl 22 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	44
Tabl 23 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	45
Tabl 24 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau Canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	46
Tabl 25 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	47
Tabl 26 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	48
Tabl 27 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	49
Tabl 28 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	50
Tabl 29 Gradd ALC yn ôl Hinsawdd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	51
Tabl 30 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m ar gyfer pob gradd ALC y ôl Sychder ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a senarios allyriadau isel, canolig ac uchel 2020, 2050 a 2080. Cyfran y sgwariau llinell sylfaen gwreiddiol mewn cromfachau.	52
Tabl 31 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	56
Tabl 32 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	57
Tabl 33 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	58
Tabl 34 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	59
Tabl 35 Newid yn y radd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	60
Tabl 36 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	61
Tabl 37 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	62
Tabl 38 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	63
Tabl 39 Gradd ALC yn ôl Sychder rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.	64
Tabl 40 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m ar gyfer pob gradd ALC y ôl Gwlybaniaeth Pridd ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a senarios allyriadau isel, canolig ac uchel 2020, 2050 a 2080. Cyfran y sgwariau gwreiddiol mewn cromfachau.	65

<i>Tabl 41 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng gwaelodlin a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>69</i>
<i>Tabl 42 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>70</i>
<i>Tabl 43 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>71</i>
<i>Tabl 44 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>72</i>
<i>Tabl 45 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>73</i>
<i>Tabl 46 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau canolig. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>74</i>
<i>Tabl 47 Newid yn y radd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>75</i>
<i>Tabl 48 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>76</i>
<i>Tabl 49 Gradd ALC yn ôl Gwlybaniaeth Pridd rhwng y llinell sylfaen a 2080 o dan senario allyriadau uchel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.</i>	<i>77</i>

Geirfa

Senario hinsawdd Cyfnod amser Senario allyriadau

2020H	2010-2039	Uchel
2020M	2010-2039	Canolig
2020L	2010-2039	Isel
2030H	2020-2049	Uchel
2030M	2020-2049	Canolig
2030L	2020-2049	Isel
2050H	2040-2069	Uchel
2050M	2040-2069	Canolig
2050L	2040-2069	Isel
2080H	2070-2099	Uchel
2080M	2070-2099	Canolig
2080L	2070-2099	Isel

AAR	Cyfartaledd Glaw Blynnyddol (Ionawr i Ragfyr)
ASR	Cyfartaledd Glaw yr Haf (Ebrill i Medi)
ATO	Tymheredd Cronedig >0°C rhwng Ionawr a Mehefin (°C dydd)
ATS	Tymheredd Cronedig >0°C rhwng Ebrill a Medi (°C dydd)
FCD	Dyddiau Capasiti Cae
MD tatws	Diffyg Lleithder ar gyfer Tatws
MD gwenith	Diffyg Lleithder ar gyfer Gwenith

Cynnydd mewn tymheredd erbyn 2100

RCP 4.5 Isel – 2.4°C
RCP 6.0 Canolig – 2.6°C
RCP 8.5 Uchel – 4.3°C

Y prif ffactorau ffisegol sy'n dylanwadu ar gynnyrch amaethyddol yw'r hinsawdd, safle a'r pridd. Mae'r ffactorau hyn ynghyd â'r rhyngweithio rhyngddynt yn ffurfio'r sail ar gyfer dosbarthu ansawdd tir (system Dosbarthiad Tir Amaethyddol MAFF 1988). Y prif ffactorau hinsoddol yw tymheredd a glawiad; y ffactorau safle a ddefnyddir yn y system ddosbarthu yw graddiant, microdirwedd a pherygl o lifogydd; a'r nodweddion pridd o bwysigrwydd arbennig yw gwead, strwythur, dyfnder a faint o gerrig sydd ynddo. Mae'r ffactorau hinsoddol, safle a phridd hyn yn cyfyngu ar gynhyrchiant amaethyddol i wahanol raddau. Gallant weithredu naill ai ar wahân neu mewn cyfuniad, a'r cyfyngiadau rhyngweithiol pwysicaf yw gwlybanaeth y pridd a sychder. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar nodi'r newidiadau a fodelwyd yn ansawdd y tir amaethyddol ar sail senarios UKCP18 o ran allyriadau tebygol drwy ganolbwyntio ar yr hinsawdd yn gyffredinol yn ogystal â chyfyngiadau rhyngweithiol pridd/hinsoddol gwlybanaeth y pridd a sychder. Mae hyn yn bwysig er mwyn nodi sut mae gwahanol briddoedd yn ymddwyn mewn gwahanol barthau hinsoddol ledled Cymru. At ddibenion yr ymarfer hwn, tybir nad yw dyfnder pridd, gwead, cynnwys cerrig a graddiant yn newid dros amser.

1 Crynodeb o'r canfyddiadau

O dan y senarios newid hinsawdd rhagamcanol (UKCP18), mae'n bosibl y bydd cynnydd yn ansawdd y tir (a bennir gan radd Dosbarthiad Tir Amaethyddol) ar draws rhannau penodol o'r wlad yn 2020 a 2050 o'i gymharu â'r llinell sylfaen; fodd bynnag, bydd ansawdd y tir yn aros yr un fath mewn llawer o ardaloedd. Yn 2080, mae'r radd Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen.

Pennir y radd ALC gyffredinol gan nifer o feini prawf sydd wedi'u graddio'n unigol ac mae'r meini prawf â'r radd isaf (sy'n cyfyngu fwyaf) yn pennu'r radd ALC gyffredinol. Mae'r gwelliant mewn graddau ALC yn 2020 a 2050 yn deillio'n bennaf o feini prawf hinsawdd yr ALC. Mae hyn yn gysylltiedig â chynnydd yn y tymheredd dros y tymor tyfu (AT0). Fodd bynnag, erbyn 2080 mae'r hinsawdd yn mynd yn rhy sych mewn rhai ardaloedd ac mae'r radd yn cael ei chyfyngu gan y meini prawf sychder. Erbyn 2080 sychder yw'r ffactor mwyaf cyfyngol ar gyfer gradd ALC, a thybio nad yw'r tir yn cael ei ddyfrhau.

Mae ardaloedd o dir rhagorol a da iawn (Graddau 1 a 2) yn Sir Benfro yn profi israddio sylweddol i dir cymedrol neu wael (Gradd 3B neu 4) erbyn 2080. Mae hyn oherwydd y meini prawf sychder sy'n cyfyngu ar y radd ALC.

Ansawdd tir amaethyddol: newidiadau yn y radd ALC

- Yn gyffredinol, mae graddau ALC yn gwella yn y 2020au a'r 2050au ond yn gostwng yn y 2080au.
- O dan bob senario allyriadau, mae cyfanswm arwynebedd y tir rhagorol a da iawn (Gradd 1 a 2) yn cynyddu yn y 2020au.
- O dan bob senario allyriadau, mae arwynebedd y tir Gradd 1 a 2 yn lleihau yn y 2050au a'r 2080au.
- Mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 1 wedi lleihau 45-50% yn y 2050au a 65-82% yn y 2080au.
- Yn y 2020au a'r 2050au ceir cynnydd cyffredinol yn arwynebedd y tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, yn sgil cynnydd mewn tir o radd dda (Gradd 3A) yn ogystal â Graddau 1 a 2 yn 2020.
- Erbyn 2080 o dan y senario allyriadau uchel, mae arwynebedd y tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas wedi gostwng dros 50% o gymharu â'r llinell sylfaen wreiddiol.
- Yn y 2020au a'r 2050au, ceir gostyngiad yng nghyfanswm yr arwynebedd o dir gradd isel (Gradd 4) o dan bob senario allyriadau.
- Yn y 2080au o dan y senarios isel a chanolig, mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 4 yn 2080 yn debyg i'r llinell sylfaen. O dan y senario allyriadau uchel, mae Gradd 4 yn cynyddu'n sylweddol ac yn cynrychioli bron i 40% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru erbyn 2080.

Rhyngweithio rhwng y pridd a'r hinsawdd: perygl sychder a gwlybanaeth pridd

- Mae hinsawdd ALC (y berthynas rhwng AT0 ac AAR) yn dangos gwelliant yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru o 2020 i 2080. Mae hyn o ganlyniad i dymereddau'n codi am fod yr AAR yn aros yn gymharol gyson.
- Nid oes gan y rhan fwyaf o Gymru unrhyw gyfyngiadau sychder (Gradd 1 am sychder) yn y llinell sylfaen ac yn 2020 mae'r patrwm yn debyg. Erbyn 2050 a 2080 o dan bob senario mae'r meini prawf sychder wedi'u hisraddio'n sylweddol gyda chynnydd yn y tir a ddosberthir fel Gradd 3b a 4 ar gyfer sychder. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar ardaloedd arfordirol a rhanbarthau'r gororau.
- Mae'r gostyngiad yn y radd ALC gyffredinol yn 2080 yn cael ei achosi'n bennaf gan y newidiadau hyn mewn meini prawf sychder.
- Mae yna welliant cyson mewn rhai ardaloedd yn y meini prawf gwlybanaeth pridd (priddoedd yn mynd yn sychach) ar draws y senarios o 2020 i 2080. Cyfrifir gwlybanaeth pridd o berthynas â dyddiau capasiti cae (sy'n parhau'n gymharol gyson) a nodweddion pridd penodol.

Yr hinsawdd cyffredinol

- Nid yw'r cyfartaledd glaw blynyddol yn newid llawer dros y cyfnodau a ragamcanwyd. Fodd bynnag, mae dosbarthiad tymhorol y glawiad yn newid, gan ddangos cynnydd mewn glawiad yn y gaeaf a llai o lawiad yn ystod misoedd yr haf o 2020 i 2080 ar gyfer pob senario allyriadau.
- Mae tymereddau cronedig uwchlaw 0°C yn cynyddu o 2020 i 2080 ar gyfer pob senario allyriadau.
- Yn 2050 a 2080 mae gan rai ardaloedd dymereddau cronedig nad ydynt yn cael eu profi ar hyn o bryd yn y llinell sylfaen. Mae hyn yn awgrymu misoedd cynhesach o dipyn yn yr haf erbyn 2080 o gymharu â'r llinell sylfaen.
- Nid yw'r cyfnod dyddiau capasiti cae cyffredinol yn newid yn sylweddol rhwng 2020 a 2080 ar gyfer rhan helaeth o Gymru.
- Mae rhai gostyngiadau cynnil yn y dyddiau capasiti cae yn ardaloedd y gororau rhwng 2020 a 2080.
- Nid yw ardaloedd ucheldiroedd craidd Cymru yn dangos fawr o newid o ran hyd y cyfnod capasiti cae o 2020 i 2080 ar gyfer pob senario allyriadau.
- Mae diffygion lleithder yn cael eu defnyddio yn y meini prawf sychder ac yn dangos cynnydd sylweddol o 2020 i 2080 yn y diffyg dŵr posibl sydd ar gael ar gyfer dau gnwd cyfeirio a ddefnyddir mewn cynydu ALC (gwenith a thatws). Er enghraifft mae uchafswm y diffyg lleithder ar gyfer gwenith yng Nghymru yn codi o 155mm i 220mm.
- Mae'r diffygion mwyaf i'w gweld yn y gororau, y de, Sir Benfro ac Ynys Môn erbyn 2080.

Meini Prawf Mwyaf Cyfyngol

- Pennir y radd ALC gyffredinol gan y radd isaf (meini prawf mwyaf cyfyngol) o'r meini prawf pridd a hinsawdd unigol a ddefnyddir i benderfynu ar ALC.
- Ar gyfer y llinell sylfaen, cyfyngir y graddau ALC yn bennaf gan yr hinsawdd (AT0 ac AAR), gwlybanaeth y pridd a meini prawf pridd a safle annibynnol (e.e. fel llethr, cerrig yn yr uwchbridd neu ddyfnder y pridd). (Ffigur 3) Prin iawn yw'r ardaloedd a gyfyngir gan y meini prawf sychder. Gweler MAFF (1988) am y canllawiau ar y meini prawf ALC a Keay (2020a) am ddatblygiad y Map ALC Rhagfynegol f2.
- Erbyn y 2080au mae'r meini prawf sychder yn dod yn gyfyngiad sylweddol ar gyfer gradd ALC (Ffigur 4). Mae'r ardaloedd a gyfyngir gan yr hinsawdd yn unig yn lleihau'n sylweddol oherwydd cynnydd mewn tymheredd. Mae gwlybanaeth y pridd yn ffactor cyfyngol mewn rhai ardaloedd hefyd lle mae'r priddoedd yn dal i fod yn ddwrlawn dros gyfnod y gaeaf (oherwydd glawiad uwch y gaeaf yn y senarios hinsawdd yn y dyfodol).

Tabl 1 Cyfran yr arwynebedd tir sydd o dan raddau ALC gwahanol o'r llinell sylfaen i senarios isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080 (data UKCP18)

Gradd	Llinell sylfaen	2020			2050			2080		
		I	C	U	I	C	U	I	C	U
1	0.31	0.41	0.42	0.38	0.18	0.19	0.15	0.11	0.09	0.06
2	7.92	9.11	9.14	8.98	7.10	7.43	4.76	2.92	2.02	0.53
3a	11.84	13.76	13.71	13.98	16.35	16.21	16.77	15.06	13.74	8.09
3b	28.75	31.08	31.00	31.44	33.28	32.99	33.78	34.26	34.37	28.03
4	24.22	19.05	19.13	18.70	17.20	17.27	18.89	22.25	24.51	38.61
5	26.95	26.58	26.60	26.53	25.89	25.90	25.65	25.41	25.27	24.69


Tabl 2 Canran yr arwynebedd tir sydd wedi'i ddosbarthu fel tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas o'r llinell sylfaen i'r senarios isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080 (data UKCP18)

	Llinell sylfaen	2020			2050			2080		
		I	C	U	I	C	U	I	C	U
% BMV	20	23	23	23	23	24	22	18	16	9
% DDIM BMV	80	77	77	77	77	76	78	82	84	91

Tabl 3 Disgrifiad o'r Graddau ALC (ffynhonnell MAFF 1988)


Gradd	Disgrifiad o'r tir amaethyddol	Manylion
1	Ansawdd Rhagorol	Dim cyfyngiadau neu fân gyfyngiadau ar ddefnydd amaethyddol. Amrywiaeth eang o gnydau amaethyddol a garddwriaethol yn cael eu tyfu. Pwysau cnwd uchel a chyson.
2	Da iawn	Mân gyfyngiadau ar bwysau'r cnwd, trin y tir neu gynaeafu. Amrywiaeth eang o gnydau ond cyfyngiadau ar gnydau â gofynion mwy dethol (e.e. llysiau a gynaeafir yn y gaeaf). Pwysau cnwd uchel ond is na Gradd 1.
3 (wedi'i hisrannu)	Da i Gymedrol	Cyfyngiadau cymedrol ar ddewis o gnwd, amseru a'r math o waith trin y tir, cynaeafu neu bwysau'r cnwd. Pwysau'r cnwd yn is ac yn fwy amrywiol na Gradd 2
3a	Da	Pwysau cnwd cymedrol i uchel o amrywiaeth gul o gnydau â'r (e.e. grawnfwydydd), neu bwysau cnwd cymedrol o laswellt, rêp had olew, tatws, betys siwgr a chnydau garddwriaethol â gofynion llai dethol.
3b	Cymedrol	Pwysau cnwd cymedrol o rawnfwydydd, glaswellt a phwysau llai o gnydau eraill. Pwysau cnwd uchel o laswellt ar gyfer pori/cynaeafu.
4	Gwael	Cyfyngiadau difrifol sy'n cyfyngu ar amrywiaeth a/neu lefel y cynnyrch. Glaswellt yn bennaf ac ambell gnwd â'r (grawnfwydydd a phorthiant), ond pwysau'r cnwd yn amrywio'n fawr.
5	Gwael iawn	Cyfyngiadau difrifol sy'n cyfyngu ei ddefnydd i dir pori parhaol neu dir pori garw ac eithrio cnydau porthiant arloesol.

UKCP18 - PREDICTIVE ALC GRADE




Ffigur 1 Gradd ALC Ragfynegol o dan senarios UKCP18. NA ardaloedd anamaethyddol, U ardaloedd trefol.

Changes in Agricultural Land Classification between original climate data and UKCP18 Scenarios 2020 2050 2080




Ffigur 2 Newidiadau yn y radd ALC o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a choch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol.

Main limiting criteria for the Baseline Predictive ALC (Version 2)



Ffigur 3 Prif gyfyngiadau ar ALC (wedi'i flaenoriaethu yn ôl Hinsawdd, Sychder, Gwlybanaeth, Ffactorau eraill) ar gyfer llinell sylfaen y Map ALC Rhagfynegol (fersiwn 2). Mae eraill yn cynnwys yr holl feini prawf ALC eraill nad ydynt yn rhai hinsoddol megis dyfnder pridd, cynnwys cerrig yr uwchbridd a graddiant.

Main limiting criteria for Predictive ALC in 2080 under the medium emission scenario



Ffigur 4 Prif gyfyngiadau ar ALC (wedi'i flaenoriaethu yn ôl Hinsawdd, Sychder, Gwlybanaeth, Ffactorau eraill) ar gyfer y Map ALC Rhagfynegol yn 2080 o dan y senario allyriadau canolog. Mae eraill yn cynnwys yr holl feini prawf ALC eraill nad ydynt yn rhai hinsoddol megis dyfnder pridd, cynnwys cerrig yr uwchbridd a graddiant

2 Hinsawdd sy'n newid – ystyriaethau adnoddau naturiol

- *Gall amodau biohinsoddol newid amgylcheddau sy'n storio carbon yn y pridd ar hyn o bryd (priddoedd mawn a phriddoedd organo-fwynol ag uwchbriddoedd mawnog)*
 - Mae ardaloedd â mawn a phriddoedd mawnog (priddoedd organo-fwynol) yn casglu ac yn cynnal carbon yn y pridd ar hyn o bryd oherwydd eu bod o dan amodau (bio)hinsoddol penodol (tymheredd isel a glawiad uchel).
 - Fodd bynnag, bydd yr amodau biohinsoddol hyn yn newid dros amser a allai olygu bod y mannau hyn yn agored i golli carbon yn sgil tymereddau uwch, llai o wlybaniaeth yn y pridd a mwy o sychder.
 - Wrth i amodau hinsoddol newid mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â cholli carbon o'r priddoedd hyn.
 - Efallai y bydd yr ardaloedd yn cynnal cynefinoedd penodol hefyd (e.e. y rhai sy'n seiliedig ar briddoedd organig-mwynol a mawn). Gallai'r newid yn yr hinsawdd newid amodau'r pridd, gan effeithio ar gyflwr a gweithrediad y cynefinoedd hyn yn y dyfodol.
- *Mae newidiadau yn y radd ALC yn golygu y bydd potensial amaethyddol yn gwella mewn rhai ardaloedd.*
 - Gallai newid defnydd tir yn y dyfodol fod yn gysylltiedig â photensial gwell. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ardaloedd yn gweld newid o laswelltir i systemau â'r gan fod ardaloedd yn dod yn fwy addas yn hinsoddol ar gyfer cynyddau combein neu arddwriaethol.
 - Gall tir nad yw wedi'i raddio fel tir gorau a mwyaf amlbwrpas ar hyn o bryd wella digon o ran gradd yn y dyfodol i gael ei gynnwys yn y tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Dylid ystyried yr ardaloedd hyn o dan bolisi cynllunio yn awr, er mwyn diogelu eu potensial yn y dyfodol.
 - Gall newidiadau mewn defnydd tir gynyddu'r perygl o fygythiadau pridd megis erydiad trwy newid o orchudd llystyfiant parhaus i ysbeidiol (trosi glaswellt i dir â'r gyda chyfnodau o bridd moel) dros dymor tyfu.
- *Mae newidiadau yn y radd ALC yn golygu y bydd potensial amaethyddol yn lleihau mewn rhai ardaloedd.*
 - Yn yr ardaloedd hyn, mae'r newidiadau yn y radd ALC gyffredinol yn cael eu sbarduno'n bennaf gan gynydd yn y meini prawf sychder. Mae hyn o ganlyniad i dymheredd uwch yn ystod y cyfnod tyfu a llai o lawiad yn yr haf.
 - I oresgyn y cyfyngiad hwn, bydd angen i'r ardaloedd hyn gael eu dyfrhau yn y dyfodol os ydynt am gynnal cynhyrchiant, yn enwedig os ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer cynyddau â'r garddwriaethol. Bydd hyn yn cynyddu'r gystadleuaeth am adnoddau dŵr yn y dyfodol. Efallai y bydd angen cadw dŵr yn ystod y gaeaf er mwyn gwneud iawn am y diffyg dŵr ym misoedd yr haf.
- *Mae newidiadau yn y dosbarthiad tymhorol a dwyster y glaw yn dangos glawiad sylweddol is yn yr haf a mwy o achosion o law eithafol yn y gaeaf erbyn 2080*
 - Dyddiau capasiti cae (FCD) yw cyfanswm y dyddiau olynol (hyd capasiti cae) mewn blwyddyn lle mae'r lle ychwanegol sydd ar gael i storio dŵr mewn priddoedd yn gyfyngedig, gan fod y gofod mandyllau bron yn llawn o ddŵr. Mae'r cyfnod capasiti cae yn digwydd dros y gaeaf ar hyn o bryd rhwng diwedd yr hydref a'r gwanwyn canlynol.
 - Mae rhai ardaloedd yn dangos gostyngiad yn nifer y dyddiau capasiti cae yn y dyfodol, fodd bynnag bydd nifer y dyddiau capasiti cae yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn debyg i'r cyfnod llinell sylfaen.
 - Mewn ardaloedd lle nad oes llawer o newid mewn dyddiau capasiti cae yn y dyfodol, prin fyddai gallu'r pridd i ymdopi â'r glawiad ychwanegol yn y gaeaf a mwy o ddigwyddiadau glawiad dwys yn y gaeaf. Mae'r digwyddiadau glawiad eithafol hyn yn debyg i lawiad y gaeaf yn y DU yn ystod gaeaf 2019/2020 a arweiniodd at lifogydd eang yn nalgylch afon Hafren.
 - Mae newidiadau yn nosbarthiad tymhorol glawiad yn debygol o effeithio ar ddechrau a diwedd y cyfnod capasiti cae. Ar hyn o bryd mae priddoedd yn 'llenwi' yn yr hydref ac yn dod allan o'r cyfnod capasiti cae y gwanwyn canlynol wrth i dymheredd ac anwedd-drydarthiad gynyddu. Mae hafau sychach a thymereddau cynhesach yn golygu bod mwy o ddiffyg lleithder yn y priddoedd yn yr haf a'u bod yn cymryd mwy o amser i 'llenwi' yn yr hydref. Mae dechrau'r cyfnod capasiti cae yn debygol o gael ei symud yn nes ymlaen yn yr hydref/dechrau'r gaeaf yn y dyfodol. Gallai fod mwy o gyfle i weithio'r tir yn yr hydref gan gynyddu'r posibilrwydd o gnydau a heuir yn yr hydref. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd priddoedd yn cymryd mwy o amser i sychu yn y gwanwyn oherwydd

cynnydd yn y glawiad yn y gaeaf, gan leihau'r cyfle i gael mynediad i dir ar gyfer tyfu cnydau, trin y tir neu ei bori yn y gwanwyn a lleihau pwysau'r cnwd.

3 Data hinsawdd a ddefnyddir yn y system Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Mae nifer o baramedrau hinsawdd yn cael eu defnyddio yn y system ALC. Mae rhai o'r paramedrau hyn fel y'u harsylwyd (e.e. glawiad), tra bod newidynnau eraill yn ddeilliedig neu'n cael eu hamcangyfrif (e.e. tymheredd cronedig). Mae angen amcangyfrif lle nad yw'r data ar gael i gyfrifo'r paramedr neu lle nad yw newidynnau'n cael eu cofnodi'n rheolaidd mewn gorsafoedd tywydd yn ddyddiol (e.e. diffyg lleithder yn y pridd ar gyfer amcangyfrif Dyddiau Capasiti Cae). Ceir rhagor o fanylion am y methodolegau yn MAFF (1988) a Keay et al. (2013).

Darperir y prif newidynnau hinsawdd a ddefnyddir yn y system ALC yn MAFF (1989). I grynhoi, mae newidynnau'r hinsawdd fel a ganlyn:

- Mae **Cyfartaledd Glaw Blynnyddol (AAR)** yn benderfynnydd pwysig o wlybaniaeth tra bod **Cyfartaledd Glaw yr Haf (ASR)** yn fesur o sychder.
- Mae **tymheredd cronedig** neu faint mae tymereddau aer dyddiol uwchlaw trothwy penodedig, yn rhoi syniad o gynhesrwydd cymharol ardal. Dangoswyd bod tymereddau cronedig yn rhoi syniad o'r mewnbwn ynni gwres ar gyfer twf cnydau a photensial sychu'r pridd, a'u bod yn cydberthyn yn dda â thwf a phwysau cnwd (MAFF 1988).
- Mae **hyd dyddiau capasiti cae** yn fesur pwysig o nifer y diwrnodau pan fydd mynediad i gae yn anodd ac fe'i defnyddir i asesu gwlybaniaeth y pridd. Mae capasiti cae yn digwydd pan fo'r pridd yn dal cymaint o ddŵr ag y mae'n gallu ei ddal yn erbyn disgrychiant. Mae dychwelyd i gapasiti cae, pan fo diffyg lleithder yn y pridd yn sero, yn digwydd yn ystod yr hydref neu ddechrau'r gaeaf fel arfer, ac yn dod i ben yn y gwanwyn pan fydd anwedd-drydarthiad yn fwy na glawiad.
- **Diffyg lleithder ar gyfer gwenith gaeaf a thatws:** Defnyddir y paramedr hwn ynghyd â'r cynhwysedd dŵr wedi'i addasu ar gyfer y cnwd (AP) wrth asesu sychder, drwy'r term cydbwysedd lleithder (MB). Mae diffyg lleithder yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng glaw a'r anwedd-drydarthiad posibl yn ystod rhan hollbwysig o'r tymor tyfu. Mae AP yn fesur o faint o ddŵr sy'n cael ei ddal ym mhroffil y pridd ac y gall cnwd ei gymryd. Mae nodweddion y pridd yn ddylanwad mawr arno. Mae tatws a gwenith gaeaf yn gynrychioliadol o amrywiaeth eang o gnydau o ran pa mor agored ydynt i sychder, ac ar ben hynny maent yn cael eu tyfu'n eang (MAFF 1988).

Rhagolygon Hinsawdd y DU (UKCP18) yw'r bedwaredd genhedlaeth o wybodaeth am newid yn yr hinsawdd ar gyfer y DU, ac mae ei rhagamcanion yn seiliedig ar fethodoleg a luniwyd gan y Swyddfa Dywydd. Mae UKCP18 yn adlewyrchu dealltwriaeth orau gwyddonwyr ar y pryd o sut mae'r system hinsawdd yn gweithio a sut y gallai newid yn y dyfodol. Dylid ystyried bod UKCP18 yn darparu rhagamcanion posibl yn hytrach na rhagfynegiadau neu ragolygon union gywir o hinsawdd y dyfodol. Nid yw un senario yn fwy tebygol na'r llall. Mae data wedi cael ei brosesu i ffitio'r system ALC (Keay 2020b) a'i ryngosod i grid 50m gan ddefnyddio data uchder OSTerrain50 a rheolau dehongli a ddiffinnir gan y Swyddfa Dywydd (1989).

Mae'r wybodaeth am y pridd yn cael ei chymryd o fapiau manwl (graddfa 1:25000 neu 1:63360) lle maent yn bodoli a lle nad ydynt, mae'n deillio o'r gyfres bridd amlycaf a nodwyd yn y Map Pridd Cenedlaethol (graddfa 1:250000). Cymerir y data ar briodweddau pridd (dyfnder, gwead, dŵr sydd ar gael, cerrig) o wybodaeth cyfresi pridd safonedig yn hytrach na nodweddion pridd a fesurwyd neu a arolygwyd. (Keay 2020A)

Aseswyd sensitifrwydd i sychder y system ALC yn Keay et al 2012 ac roedd y systemau a ddefnyddiwyd i gyfrifo ALC o nodweddion pridd a safle yn destun proses adolygu gan gymheiriaid.

Ni ystyriwyd digwyddiadau tywydd eithafol. Mae yna ddata'r Swyddfa Dywydd am ddigwyddiadau o'r fath ond mae'r ALC yn edrych ar gyfartaleddau 30 mlynedd ac nid yw'n ystyried y data hwn. Gallai chwarae rhan gynyddol bwysig o ran gallu tir amaethyddol drwy'r senarios ac mae angen ei astudio ymhellach.


Tabl 4 Crynodeb o Baramedrau Hinsawdd yr ALC

Paramedr Hinsawdd	Diffiniad	Pwysigrwydd	Asesiad yn yr ALC
Tymheredd cronedig uwchlaw 0°C, Ionawr i Mehefin (AT0)	Tymheredd effeithiol dyddiol (wedi'i fesur fel gradd-dyddiau uwchlaw 0 °C), wedi'i luosi â nifer y dyddiau yn y mis, a'i gronni dros Ionawr i Fehefin	Ffactor tymheredd sy'n cyfyngu ar ddatblygiad a thwf cnydau. Mae gwaith wedi dangos bod estyniad dail yn digwydd ar dymheredd o 0 °C	Hinsawdd
Tymheredd cronedig uwchlaw 0 °C, Ebrill i Medi (ATS)	Tymheredd effeithiol dyddiol (wedi'i fesur fel gradd-dyddiau uwchlaw 0 °C), wedi'i luosi â nifer y dyddiau yn y mis, a'i gronni dros Ebrill i Fedi	Ffactor tymheredd sy'n cyfyngu ar ddatblygiad a thwf cnydau. Defnyddir i gyfrifo diffyg lleithder yn y pridd.	Sychder pridd
Cyfartaledd Glaw Blyneddol	Cymedr cyfanswm y glawiad blyneddol	Pennu lleithder	Hinsawdd
Hyd Dyddiau Capasiti Cae (FCD)	Nifer y diwrnodau (canolrif neu gymedr) rhwng dychwelyd i a diwedd amodau capasiti cae y gaeaf (pan fo'r diffyg lleithder pridd yn sero).	Mae gwlybanaeth y pridd yn effeithio ar dwf planhigion ac egino, a gall osod cyfyngiadau ar waith trin tir a phori gan dda byw	Gwlybanaeth pridd
Cyfartaledd Glaw yr Haf (Ebrill i Medi) (ASR)	Cyfanswm y glawiad cymedrig rhwng Ebrill a Medi	Mae priddoedd dysychedig yn cyfyngu ar dwf cnydau yn ystod y tymor tyfu, gan beri straen lleithder	Sychder pridd
Diffyg lleithder ar gyfer gwenith gaeaf a thatws	Yn cynrychioli'r cydbwysedd rhwng glaw ac anwedd-drydarthiad posibl sy'n gysylltiedig â gofynion dau gnwd cyfeirio (gwenith gaeaf a thatws)	Mae sychder yn cyfyngu ar dwf cnydau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r glawiad yn gymharol isel neu anwedd-drydarthiad yn gymharol uchel neu lle mae'r pridd yn dal ychydig bach o ddŵr.	Sychder pridd. Defnyddir wrth gyfrifo cydbwysedd lleithder gyda'r cynhwysedd dŵr sydd ar gael i gnydau (AP)

4 Ansawdd tir amaethyddol

- Yn gyffredinol, mae graddau ALC yn gwella yn y 2020au a'r 2050au ond yn dirywio yn y 2080au.
- O dan bob senario allyriadau, mae cyfanswm arwynebedd y tir rhagorol a da iawn (Gradd 1 a 2) yn cynyddu yn y 2020au.
- O dan yr holl senarios allyriadau, mae arwynebedd y tir Gradd 1 a 2 yn lleihau yn y 2050au a'r 2080au.
- Mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 1 wedi lleihau 45-50% yn y 2050au a 65-82% yn y 2080au.
- Yn y 2020au a'r 2050au ceir cynnydd cyffredinol yn arwynebedd y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, yn sgil cynnydd mewn tir o radd dda (Gradd 3A) yn ogystal â Graddau 1 a 2 yn 2020.
- Erbyn 2080 o dan y senario allyriadau uchel, mae arwynebedd y tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas wedi gostwng dros 50% o gymharu â'r llinell sylfaen wreiddiol.
- Yn y 2020au a'r 2050au, ceir gostyngiad yng nghyfanswm yr arwynebedd o dir gradd isel (Gradd 4) o dan bob senario allyriadau.
- Yn y 2080au o dan y senarios isel a chanolig, mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 4 yn 2080 yn debyg i'r llinell sylfaen. O dan y senario allyriadau uchel, mae Gradd 4 yn cynyddu'n sylweddol ac yn cynrychioli bron i 40% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru erbyn 2080.


Predictive V2 PREDICTIVE



UKCP Climate data © Meteorological Office 2019
Soil Data © Cranfield University 2019


Ffigur 5 Llinell sylfaen Gradd ALC Ragfynegol (fersiwn 2.0).

UKCP18 - PREDICTIVE ALC GRADE



Ffigur 6 Gradd ALC Ragfynegol o dan senarios UKCP18

Changes in Agricultural Land Classification between original climate data and UKCP18 Scenarios 2020 2050 2080



Ffigur 7 Newidiadau yn y radd ALC o'r llinell sylfaen ar gyfer senarios allyriadau isel, canolig ac uchel yn 2020, 2050 a 2080. Mae ardaloedd gwyrdd a glas yn nodi lle mae gradd ALC wedi gwella o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a coch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd oren a coch yn nodi lle mae'r radd ALC wedi gostwng o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae ardaloedd gwyn yn dangos dim newid yn y radd ALC, tir anamaethyddol neu ardaloedd trefol.

4.1 Senarios allyriadau isel

Newidiadau cyffredinol yng nghyfanswm arwynebedd y graddau

- Mae tir Gradd 1 a 2 yn cynyddu yn 2020 ond mae'n gostwng yn 2050 a 2080, sy'n golygu mai dim ond traean o arwynebedd y llinell sylfaen sy'n weddill erbyn 2080. Mae cynnydd mewn tir Gradd 2 yn 2020 wrth i dir a raddiwyd yn flaenorol fel 3a wella i fod yn dir Gradd 2.
- Mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 3A yn cynyddu uwchlaw'r llinell sylfaen ar gyfer pob blwyddyn. Mae tir a oedd yn dir Gradd 3a yn wreiddiol yn lleihau o 2020 i 2080 ond mae cynnydd enillion mewn ardaloedd eraill sydd naill ai wedi gwella neu wedi'u hisraddio dros y cyfnod yn gwneud yn iawn am hyn.
- Mae cyfanswm arwynebedd y tir gorau a mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a) yn cynyddu o 3 i 4% yn 2020 a 2050. Yn 2080 mae'n 2% yn is o gymharu â'r llinell sylfaen.
- Mae tir cymedrol (gradd 3b) yn dangos cynnydd cymedrol yng nghyfanswm yr arwynebedd o 2020 i 2080. Caiff unrhyw golledion o dir gradd 3b gwreiddiol eu gwrthbwyso gan dir mewn ardaloedd eraill sy'n dod yn dir gradd 3b. Yn 2020 mae hyn yn bennaf yn sgil gwella tir Gradd 4 i Radd 3b. Yn 2080 mae ardaloedd a oedd yn wreiddiol yn Radd 2 a 3a yn cael eu hisraddio i 3b.
- Mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 4 yn lleihau yn 2020 a 2050 o ganlyniad i dir yn gwella i Radd 3b. Mae cyfanswm arwynebedd y tir Gradd 4 yn cynyddu yn 2080 (er nid i'r un lefelau â'r llinell sylfaen) yn sgil israddio tir a oedd o dan Radd 2, 3a a 3b yn wreiddiol.
- Cymharol ychydig o newid sydd mewn tir Gradd 5 ym mhob cyfnod amser, gyda lleihad bach yn unig o 2020 i 2080.


Tabl 5 Cyfanswm nifer y sgwariau grid 50m yng Nghymru ar gyfer pob gradd ALC ar gyfer y llinell sylfaen (1961-1990) a 2020, 2050 a 2080 o dan senario allyriadau isel. Heb gynnwys ardaloedd anamaethyddol a threfol. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n dangos cyfran yr arwynebedd llinell sylfaen.

Gradd ALC	Cyfanswm llinell sylfaen	Cyfanswm 2020I (% o'r llinell sylfaen)	Cyfanswm 2050I (% o'r llinell sylfaen)	Cyfanswm 2080I (% o'r llinell sylfaen)
1	21676	28573 (132%)	11942 (55%)	7480 (35%)
2	548088	630186 (115%)	491551 (90%)	201401 (37%)
3a	819685	952616 (116%)	1131948 (138%)	1042686 (127%)
3b	1990244	2151410 (108%)	2303228 (116%)	2371035 (119%)
4	1675806	1318354 (79%)	1190559 (71%)	1540033 (92%)
5	1865992	1840352 (99%)	1792263 (96%)	1758856 (94%)

Tabl 6 Cyfran yr arwynebedd yng Nghymru a ddosberthir fel tir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV; graddau 1, 2 a 3A ALC) a thir nad yw'n BMV (Graddau 3b, 4 a 5) ar gyfer y llinell sylfaen a'r senarios allyriadau isel yn 2020, 2050 a 2080. Heb gynnwys ardaloedd anamaethyddol a threfol.

	Llinell sylfaen	2020I	2050I	2080I
BMV	20%	23%	24%	18%
DDIM YN BMV	80%	77%	76%	82%

ALC grade 2020L ● 1 ● 2 ● 3a ● 3b ● 4 ● 5




Ffigur 8 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae trwch rhuban yn cynrychioli nifer y celloedd grid 50m.

Tabl 7 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2020 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.

Graddau 2020I							Cyfanswm llinell sylfaen
Gradd llinell sylfaen	1	2	3a	3b	4	5	
1	12092	7776	1776	32			21676
2	15900	424240	96329	11607	12		548088
3a	576	173478	574860	64550	6060	161	819685
3b	5	22380	235067	1670386	62005	401	1990244
4		2312	39408	404164	1215974	13948	1675806
5			5176	671	34303	1825842	1865992
Cyfanswm 2020I	28573	630186	952616	2151410	1318354	1840352	6921491

ALC grade 2050L ●1 ●2 ●3a ●3b ●4 ●5




Ffigur 9 Newid yn y radd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel

Tabl 8 Gradd ALC rhwng y llinell sylfaen a 2050 o dan senario allyriadau isel. Mae'r niferoedd yn cynrychioli cyfanswm nifer y celloedd grid 50m.

Graddau 2050I							Cyfanswm llinell sylfaen
Gradd llinell sylfaen	1	2	3a	3b	4	5	
1	3103	5967	10334	2269	3		21676
2	7869	253841	188819	90242	7317		548088
3a	947	172452	488820	129974	27331	161	819685
3b	23	47462	341592	1519720	81273	174	1990244
4		11828	89543	556552	1014246	3637	1675806
